# Y Dinesydd

Ebrill 2012 Rhif 366 Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch Pris: 80 ceiniog

# BANC BWYD CAERDYDD

## Brwydro Newyn Cudd : Adfer Gobaith

Menter Gristnogol sy'n cynnig cyfle i'r gymuned gyfan fynd i'r afael â newyn cudd yn y brifddinas yw Banc Bwyd Caerdydd. Yn ôl yr ystadegau mae tua 50,000 o unigolion difreintiedig yn y brifddinas ac mewn rhai ardaloedd mae dros 70 y cant o'r plant yn perthyn i deuluoedd sy'n dibynnu ar fudd-daliadau. Nod y Banc yw estyn cymorth i'r sawl sy'n dioddef cynni ariannol ac sydd, o'r herwydd, yn methu â'u bwydo eu hunain na'u teuluoedd.

### Sut mae'r Banc Bwyd yn gweithio?

Bydd unigolion, ysgolion, busnesau ac eglwysi'n cyfrannu bwyd a gaiff ei storio mewn warws yn Nhreláí. Trefnir casgliadau arbennig mewn archfarchnadoedd hefyd. Bydd gweithwyr gofal proffesiynol yn cynnwys ymwelwyr iechyd, elusennau, gweithwyr bugeiliol eglwysi a'r gwasanaethau cymdeithasol yn rhoi talebau i gleientiaid sydd mewn angen. Gall cleientiaid wedyn gyfnewid y talebau am dri diwrnod o fwyd maethlon.

Bydd y cleientiaid yn casglu'r bwyd o ganolfannau dosbarthu'r Banc Bwyd ar draws y ddinas. Yno maen nhw'n cael lle diogel i gael sgwrs gyfeillgar dros baned a byrbryd. Bydd rhywun yno hefyd i'w cyfeirio at ystod o wasanaethau cefnogi fel cyngor ar ddyledion a hyfforddiant sgiliau bywyd.

Mae Banc Bwyd Caerdydd yn rhan o Rwydwaith Banc Bwyd Cenedlaethol y Deyrnas Unedig. Darparwyd bwyd i ryw 3300 o bobl mewn argyfwng yn y brifddinas yn ystod 2011.

'Mae'r Banc Bwyd yn syniad hawdd iawn ei ddeall,' meddai un wirfoddolwraig, 'a gallwch fod yn sicr y bydd yr holl fwyd a roddwch yn mynd i drigolion lleol sydd




*Cyfrannu bwyd i'r Banc Bwyd yn un o archfarchnadoedd y brifddinas (Llun: Prifysgol Caerdydd)*




*Gwirfoddolwyr yn cynnig help llaw i'r Banc (Llun: Prifysgol Caerdydd)*

mewn angen. Nid yw problem newyn yn broblem gwledydd trydydd byd yn unig – mae llawer o bobl yng Nghaerdydd yn byw mewn gwir dlodi am resymau y tu hwnt i'w rheolaeth. Mae elusennau fel y Banc Bwyd yn gwneud y gwahaniaeth rhwng bwyta neu beidio.'

'Mae'n galondid gweld y gwahaniaeth y gall wneud i'r sawl sy'n derbyn rhoddion bwyd,' ychwanegodd. 'Yn aml bydd yn rhoi mwy o hyder iddyn nhw fynd i chwilio am waith.'

Os nad ydych chi wedi cael cyfle i gyfrannu bwyd i Fanc Bwyd Caerdydd a hoffech wybod mwy, ffoniwch **07891 177 700** neu ewch i wefan y Banc: **www.cardifffoodbank.org.uk**

Gweler hefyd y **Rhestr Siopa** o fwydydd y byddai'n dda gan y Banc eu derbyn.

**Rhestr Siopa**

| | |
|---|---|
| Llaeth (UHT) | Llysiau tun |
| Grawnfwyd a cheirch uwd | Tatws stwnsh sydyn |
| Cawl tun a chawl pecyn | Tatws tun |
| Sudd ffrwythau (carton UHT) | Cig tun |
| Sawsiau pasta | Pysgod tun |
| Pwdin sbwng reis tun | Ffrwythau tun |
| Cwstard | Siwgr |
| Tomatos tun | Bisgedi / barrau byrbryd |
| Pasta / Reis / Ffacbys | Olew llysiau |
| Reis sawrus | Jam |
| *Noodles* | Bagiau te a choffi |
| Saws pasta | Siocled |
| *Couscous* | Halen a phupur |
| | Semolina |

# Y Dinesydd

Golygyddion y rhifyn hwn:
Alun a Mair Treharne

Golygydd y rhifyn nesaf:
Richard Lewis

Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn Mai erbyn 27 Ebrill i:
5 Station Terrace,
Llanbedr-y-fro,
Bro Morgannwg CF5 6LU
Ffôn: 01446 760 913
richardllanbedr@gmail.com

**MANYLION CYSYLLTU**

**Calendr y Dinesydd**
Dr E. Wyn James
16 Kelston Road, Caerdydd. CF14 2AJ
029 20628754
JamesEW@caerdydd.ac.uk

**Hysbysebion**
Ceri Morgan
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812
ceri33@btopenworld.com

**Dosbarthu copïau**
Huw Jones
22 Blaen-y-coed, Radur
Caerdydd, CF15 8RL
cartref: 029 20842811
symudol: 07985 174997

Gwefan Y Dinesydd:
www.dinesydd.com

Cyhoeddir y Dinesydd gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyd gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd
## 2 Mawrth 2012



*Rhiannon Evans, Heulwen Jones a Rhiannon Gregory yn Eglwys Sant Philip Evans*

Dyma dair o garfan capel Minny Street a gymerodd ran yn yr oedfa hon eleni, oedfa a baratowyd gan Gristnogion Malaysia. Cawsom groeso gan chwiorydd Eglwys Sant Philip Evans, Rhodfa Llanedeyrn. Roedd merched o'r eglwys honno ynghyd â Salem ac Ebeneser hefyd yn cymryd rhan a sawl un wedi gwisgo'n lliwgar a blodau yn ei gwallt; roedd un arall mewn gwisg *suffragette* i gryfhau'r neges oedd ganddi hithau.

Y siaradwr gwadd oedd Saundra Storch o Bontyberem, ein cynrychiolydd ni Gymry ar Bwyllgor Llundain.

**Lona Roberts,** *Ysgrifennydd Pwyllgor Cylch Caerdydd*

# *Pantyfedwen* yw Emyn i Gymru 2012

Mae gwylwyr y gyfres *Dechrau Canu Dechrau Canmol* ar S4C wedi dewis *Pantyfedwen* fel eu hoff emyn ar gyfer 2012.

Daeth yr emyn i'r brig mewn pleidlais a gynhaliwyd yn ystod mis Chwefror gan y gyfres deledu, lle roedd gofyn i wylwyr bleidleisio dros eu hoff emyn o restr fer o ugain oedd wedi ei dewis gan banel o arbenigwyr.

Datgelwyd y canlyniad mewn rhifyn arbennig o *Dechrau Canu Dechrau Canmol* ar S4C nos Sul 11 Mawrth. Cafodd y rhaglen ei recordio ym Mhafiliwn Bont, Pontrhydfendigaid, gydag Alwyn Humphreys yn arwain y canu. 'Fe gawsom ni gymanfa ardderchog, gyda cherddorfa a threfniadau arbennig. Roedd digon o hwyl i'w gael nes bod to'r Pafiliwn yn codi,' meddai Alwyn.

Ond beth oedd y maestro a'r cyflwynydd yn ei feddwl o ddewis y gwylwyr? 'Mae *Pantyfedwen* yn emyn cymharol ddiweddar, ac mae'r geiriau a'r gerddoriaeth wedi cydio mewn ffordd sydd bron iawn yn unigryw i'r blynyddoedd diweddar. Dim ond *Pantyfedwen* a *Bro Aber* sydd wedi creu'r fath argraff yn y 50 mlynedd diwethaf.

'Mae cyfuniad o'r dôn a'r geiriau - ac yn enwedig 'Mae'r Haleliwia yn fy enaid i' – yn gwneud i bobl agor allan ac mae'n cynhyrfu pobl. Wedi'r cyfan, 'da' ni gyd yn chwilio am yr Haleliwia yn ein bywydau.'

## Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

**SIOP Y FELIN**, 54-60 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, CF14 1DJ
**SIOP PRIFYSGOL CYMRU**, 12 Stryd Fawr, Caerdydd, CF10 1AX
**CABAN**, 169 Kings Road, Pontcanna, CF11 9DE
**DERI STORES**, 1 Wenallt Road, Rhiwbeina, CF14 6SA
**VICTORIA FEARN GALLERY**, 6b Heol y Deri, Rhiwbeina, CF14 6HF
**HALLS**, 44 Stryd Fawr, Llandaf, CF5 2DZ
**HALCYON DAZE**, 55 Wellfield Road, Y Rhath, CF24 3PA
**SIOP LYFRAU WINDSOR**, 9a Windsor Road, Penarth, CF64 1JB
**FOOD FOR THOUGHT**, 12 High Street, Y Barri, CF62 7EA
**COFFEE LOUNGE**, 38 Station Road, Llanisien, CF14 5LT
**WELSH'S FRUIT & VEG**, 8 Station Road, Radur, CF15 8AA

# Addysg Gynradd Gymraeg: Y Twf yn Parhau – ond Efallai'n Arafu Eleni

Eleni ceisiodd 676 plentyn ddechrau addysg gynradd Gymraeg fis Medi nesaf; cafodd 617 ohonynt le yn yr ysgol o'u dewis cyntaf a 44 mewn ysgol ail neu drydydd dewis. Ddechrau mis Mawrth roedd 15 o hyd heb gael lle.

Mae'r nifer sy wedi cael lle erbyn dechrau mis Mawrth, sef 661, o'i gymharu â'r 629 oedd yn yr un sefyllfa yr un adeg y llynedd, yn dangos twf o tua 5%. Erbyn mis Medi 2011 y nifer a dderbyniwyd i addysg Gymraeg oedd 657, sef 28 yn uwch, y cynnydd hwn trwy dderbyn plant oedd wedi ceisio addysg Gymraeg ar ôl y dyddiad cau swyddogol sydd mor gynnar â Rhagfyr 5ed. Bob blwyddyn derbynnir ceisiadau hwyr oddi wrth rai nad ydynt yn poeni am reolau biwrocrataidd neu sy'n symud i fyw i Gaerdydd heb wybodaeth am reolau sir nad oeddent yn byw ynddi. Mae pob rheswm felly dros obeithio y bydd nifer terfynol y mynediadau yn codi yn ystod y misoedd nesaf trwy geisiadau hwyr a hefyd trwy ddwyn perswâd ar rieni rhai o'r 15 na chafodd le hyd yn hyn i dderbyn lle mewn ysgolion Cymraeg eraill yn hytrach na throi at addysg Saesneg.

Mae 15 o'r 17 ysgol gynradd yn llawn neu yn agos ati, yn cynnwys 3 o'r 4 ysgol a agorwyd yn 2007, sef Nant Caerau, Pen y Pil a Than-yr-Eos. Pen-y-Groes yn unig sydd heb gyrraedd ei llawn twf, gan dderbyn hyd yn hyn ond 8 plentyn eleni. Mae Nant Caerau eleni fel y llynedd o dan bwysau galw am le gyda 36 cais am 30 lle. Mae ysgol gymharol newydd arall, sef Glan Morfa (agorwyd 2005), wedi derbyn 35 cais am 30 lle.

Ysgol Mynydd Bychan yw'r ysgol lle mae'r bwlch mwyaf rhwng nifer y ceisiadau a'r ddarpariaeth - 41 cais am 30 lle. I gwrdd â'r galw, sy'n amhosibl ar safle cyfyng Ysgol Mynydd Bychan, mae'r sir wedi agor trydedd ffrwd yn Ysgol y Wern sydd bellach yn meddu ar safle'r hen ysgol gyfrwng Saesneg drws nesaf (Ysgol Cefn Onn) yn ogystal â'i safle gwreiddiol.

Mae'r galw cynyddol yn ardaloedd Treganna, Pontcanna a Threfynach wedi cael lle rhwng tair ysgol yr ardaloedd hyn, sef Treganna, Pwll Coch a Than-yr-Eos. Erbyn 2013, wrth gwrs, bydd Ysgol Treganna, yn ei chartref newydd yn Heol Sanatoriwm, wedi derbyn plant yr hen Dreganna a phlant yr atodiad, sef Tan-yr-Eos. Cyfanswm plant newydd y tair ardal yw 145, sef 3 yn uwch na'r 142 a dderbyniwyd y llynedd.

Mae'r galw am le yn Ysgol Pencae yn uwch na'r ddarpariaeth - 36 cais am 30 lle. Nid yw Ysgol Glan Ceubal eto'n denu plant: pedwar plentyn newydd yn unig sy'n mynd yno eleni. Mae'r ysgol hon yn dioddef am nad yw'r sir wedi rhoi iddi ddalgylch penodol eto.

Mae'n debyg na fydd y twf yn y niferoedd gyfuwch â'r cynnydd o bron 10% y llynedd, ond yn nes at 5%, sydd yn uwch wrth gwrs na'r cyfartaledd o 2% a welwyd tan 2000. Mae addysg Gymraeg yn parhau i dderbyn ychydig yn llai nag 20% o blant Caerdydd.


Bydd swyddogion RhAG yn trafod gyda swyddogion y sir yr angen am helaethu ysgolion Pen y Pil, Glan Morfa, Gwaelod-y-garth a Choed-y-Gof i gwrdd â'r galw cynyddol ac i brysuro agor yr ysgol newydd a addawyd yn Nhrefynach gan gadw trydedd ffrwd Pwll Coch nes yr agorir yr ysgol hon.

**Michael L N Jones**
*Cydlynydd RhAG yn y De-ddwyrain*

## Bore coffi i godi arian at gartref plant yn ne-ddwyrain India

Ar fore Mercher 21 Mawrth, yng nghartref John a Gwen Emyr, y Mynydd Bychan, cynhaliwyd bore coffi er budd Cartref Plant Amala, de-ddwyrain India.

Yn ystod taith ddiweddar drwy rannau o India, ymwelodd Huw a Luned Aaron â Chartref Plant Amala. Yn fuan wedyn, ysywaeth, cafodd y cartref niwed difrifol o ganlyniad i seiclon cryf, a phenderfynodd y ddau artist o'r Eglwys Newydd godi arian i gynorthwyo'r elusen trwy werthu eu gwaith. Diolchir i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y bore coffi. Cyfanswm y cyfraniadau i'r elusen oedd £730.00.



*Huw a Luned Aaron yn ymlacio wedi prysurdeb y bore coffi*

## DANIEL

Dymuna teulu'r diweddar Emyr Daniel gydnabod yn ddiolchgar pob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt ar adeg colli un oedd mor annwyl iddyn nhw.

Diolch hefyd am y teyrngedau didwyll a'r cyfraniadau hael tuag at Sefydliad Syr Geraint Evans dros Ymchwil y Galon.

menter caerdydd

**www.mentercaerdydd.org**
**029 20689 888**

## Fi a Fy Mabi

Cwrs newydd sbon i fenywod beichiog - y cyfle perffaith i ddarpar famau ddysgu technegau ymlacio, tylino a chael cyngor gan fydwraig a dietegydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ystod y cwrs 4 wythnos, a fydd yn dechrau Nos Fawrth, 1 Mai rhwng 7 p.m. ac 8.30 p.m yn Chapter, Treganna, bydd y sesiynau'n cynnwys:

- Tylino Babi
- Yoga
- Cyngor gan ddietegydd
- Ymweliad gan fydwraig

£20 yw cost y cwrs. I gofrestru, neu am fwy o wybodaeth, ewch i www.mentercaerdydd.org neu e-bostiwch marirhys@mentercaerdydd.org

## Miri Meithrin

Bydd 2 sesiwn Miri Meithrin yn ystod gwyliau'r Pasg:

- Dydd Iau, 12 Ebrill / 10.30 a.m. / Canolfan Hamdden y Gorllewin: Jambori, Sali Mali a Ffransis.
- Dydd Mawrth, 17 Ebrill / 2.00 p.m. / Canolfan Hamdden Pentwyn: Heini, Norman Preis a Superted.

Bydd cyfle hefyd yn ystod y ddau sesiwn i gymryd rhan mewn sesiynau celf a chrefft, chwarae ar y castell gwynt a chwarae gyda ffrindiau! £3 y plentyn/babi (rhieni am ddim).

## Clybiau newydd i blant

Bydd y clybiau newydd canlynol yn dechrau ar ôl gwyliau'r Pasg:

- Clwb Drama / Ysgol Bro Eirwg / Bl. 3- 6 / Yn dechrau 1 Mai.
- Clwb Drama / Ysgol Mynydd Bychan / Bl. 3-6 / Yn dechrau 2 Mai.
- Clwb Drama / Ysgol Pen y Pil / Bl. 2-4 / Yn dechrau 3 Mai.
- Clwb Dawnsio Stryd / Neuadd Gymunedol yr Eglwys Newydd / Bl. 1 a 2 / Yn dechrau Nos Iau, 26 Ebrill.
- Clwb Criced / Clwb Criced Caerdydd / Bl. 3-6 / Yn dechrau Nos Wener, 27 Ebrill.

Am fwy o fanylion, i gofrestru ac am restr lawn o glybiau Menter Caerdydd yn ystod tymor yr Haf, ewch i'r wefan: www.mentercaerdydd.org

## Clwb nofio i blant 4 oed

Yn dilyn llwyddiant ysgubol ein dosbarthiadau nofio, ac i ateb y galw am fwy o wersi nofio drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd y Fenter yn cynnal cwrs 10 wythnos ar gyfer plant 4 oed. Bydd y cwrs dechreuwyr ar gyfer plant a fydd yn dechrau yn yr ysgol gynradd ym mis Medi 2012. Bydd 2 sesiwn yn cael eu cynnal ar fore dydd Sadwrn yng Nghanolfan Hamdden y Gorllewin yn Nhreláì: **Sesiwn 1:** 9.30 a.m. - 10.00 a.m. a **Sesiwn 2:** 10 a.m. - 10.30 a.m. Trefnir y cwrs ar y cyd rhwng y Fenter a'r Urdd dan arweiniad hyfforddwyr cymwys a phrofiadol. Cost cofrestru ar y cwrs 10 wythnos yw £43 ac mae modd gwneud hynny drwy'r wefan - www.mentercaerdydd.org Am fwy o fanylion, e-bostiwch leanne@mentercaerdydd.org

## Cwis *Y Mochyn Du*

Bydd cwis yn cael ei gynnal nos Sul, 29 Ebrill yn *Y Mochyn Du* am 8 p.m. £1 y person. Mae croeso cynnes i bawb! Cofiwch fod y cwis ar nos Sul olaf bob mis!

## Gweithdy 'Cyflwyniad i Waith Gwirfoddoli'

Cynhaliwyd dau sesiwn i ddisgyblion Blynyddoedd 11, 12 a 13 yn ddiweddar er mwyn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc ar amryw o weithgareddau'r Fenter. Cynhaliwyd un sesiwn yn Ysgol Gyfun Glantaf ac un yn Ysgol Gyfun Plasmawr yn ystod mis Mawrth ac roedd yr ymateb yn wych a dros hanner cant o fyfyrwyr yn bresennol. Yn ystod y sesiynau cafodd y bobl ifanc flas ar weithgareddau'r Fenter a chyflwyniad ymarferol i dechnegau a sgiliau chwarae gan gwmni Dynamix o Abertawe. Ein bwriad nawr yw medru cynnig cyfleoedd i'r myfyrwyr yn ystod y misoedd nesaf.



*Cael blas ar y Gweithdy Gwirfoddoli*

## Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg 2012

Mae Menter Caerdydd yn ystyried trefnu gwasanaeth bysiau rheolaidd i redeg o Gaerdydd i Faes yr Eisteddfod yn Llandw fis Awst eleni. Y gobaith yw y bydd y bysiau'n rhedeg o ben bore tan yn hwyr yn y nos, gyda'r bws olaf yn gadael y Maes ar ôl diwedd y cyngerdd yn y Pafiliwn. Bydd tâl bychan yn cael ei godi am y gwasanaeth.

Rydym yn awyddus i sicrhau bod galw am wasanaeth bysiau o Gaerdydd i'r Maes cyn mynd ati i drefnu'r amserlen, ac felly'n gofyn i unrhyw un a fyddai'n awyddus i ddefnyddio'r bysys yn ystod wythnos yr Eisteddfod gysylltu â ni er mwyn i ni weld pa mor boblogaidd fyddai gwasanaeth o'r fath.

Nid yw'ch ymateb yn eich rhwymo i unrhyw beth, ond yn hytrach yn ein helpu i asesu'r galw.

Gallwch naill ai ymateb trwy ein ffonio ni yn y swyddfa, 029 20 689888, cysylltu drwy Twitter neu Facebook y Fenter, neu drwy anfon e-bost at menter@caerdydd.org

## Tafwyl 2012

Bydd gwefan Tafwyl yn barod yn fuan iawn nawr - www.tafwyl.org - ond tan hynny, mae modd dilyn y newyddion diweddaraf drwy ein cyfrif ar Twitter a'r dudalen Facebook. Dyma flas o rai o'r artistiaid a phartneriaid sydd eisoes wedi cytuno i ymuno â ni yn ystod y Ffair - Bryn Williams, Undeb Rygbi Cymru, Stwnsh a Cyw, No Fit State, FAW, Geraint Lovgreen, Meic Stevens, Greta Isaac, Llenyddiaeth Cymru, ysgolion Caerdydd a llawer, llawer mwy - felly mae'n argoeli bod yn ŵyl a hanner! Bydd y Ffair yn cael ei chynnal yng Nghastell Caerdydd, ddydd Sadwrn, 23 Mehefin a bydd gweithgareddau'n digwydd drwy'r wythnos tan y 29ain.

# Colofn G.R.

Yn ddiweddar cyhoeddwyd bod ffarm 'Yr Ysgwrn', sef hen gartre'r bardd Hedd Wyn yn Nhrawsfynydd, wedi ei diogelu am byth gan i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ei phrynu. Trueni nad oes mwy o safleoedd hanesyddol fel hyn yn cael eu hachub rhag difodiant.

Rai wythnosau'n ôl es i ag ymwelwyr o'r Wladfa i olwg Capel Horeb yn Llwydcoed ger Aberdâr gan mai oddi yno yr ymfudodd y Parchg Abraham Mathews i Batagonia gan ddod yn weinidog cyntaf y Wladfa. Enwyd stryd ar ei ôl yn nhre Trelew yn Nyffryn Camwy. Ond och a sôn, pan gyrhaeddon ni'r capel roedd golwg druenus ar y lle hefo'r ffenestri a drws yr adeilad wedi eu byrddio ac arwydd mawr ar y wal yn cyhoeddi bod y capel ar werth.

Mae hen dafarn *The Vulcan* yng nghanol Caerdydd, a adeiladwyd yn 1858, mewn perygl o ddiflannu i wneud lle i estyniad i faes parcio gan fod y les ar fin dod i ben a pherchennog y safle am ei hawlio yn ôl. Collwyd safle hen blasty a phriordy ger Ffordd y Brenin (Kingsway) pan godwyd clamp o adeilad ar gyfer swyddfeydd ar y safle. Mae hen gamlas Morgannwg, a fyddai wedi bod yn atyniad gwych i ymwelwyr â'n dinas, hefyd wedi diflannu a sawl adeilad a safle arall o ddiddordeb hanesyddol wedi eu disodli yn yr awydd i ddatblygu'r ddinas.

Yn ogystal ag ymweld â Chapel Horeb yn Llwydcoed es i â'm hymwelwyr i Barc Ynys Angharad ym Mhontypridd i weld y gofeb i gyfansoddwyr ein hanthem genedlaethol, ond siom oedd methu darllen yr arysgrif wrth fôn y gofeb oherwydd traul ar y geiriau. O na fyddem yn fwy parod fel cenedl i ddiogelu ein hetifeddiaeth gyfoethog!

Tra dw i ar fy mocs sebon yn beirniadu difrawder y genedl man a man i mi sôn am fy nicter a'm siom yn y ffordd mae ein prifysgol genedlaethol wedi ei darnio a'i dibrisio. Ymddengys nad yw Prifysgol Cymru fel rydan ni'r bobl hŷn yn ei chofio yn bod bellach. Ble ar wyneb y ddaear oedd ein harweinwyr ac uchel swyddogion y Brifysgol a ganiataodd i hyn ddigwydd o dan ein trwynau? Sôn am y gwylwyr ar y tŵr yn cysgu gan weld difetha'r sefydliad a enynnodd barch y genedl ers ei sefydlu yn ôl ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg!

**Cyhoeddi manylion cyngherddau Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Bro Morgannwg, 4-11 Awst 2012**

***Gweler tudalen 14***

# Merched y Wawr Radur

Mr Alan James oedd ein gŵr gwadd y mis diwethaf. Bu'n ein difyrru â storïau am ei fam-gu. Cymerodd ei ddeunydd o sgyrsiau ar dâp fu rhyngddo a hithau ac o'i chofnod ysgrifenedig hi ei hunan. Rhoddwyd i ni ddarlun diddorol a difyr o addysg a hanes cymdeithasol ei hoes hi.

Mae'r gangen yn cwrdd ar nos Fercher gynta'r mis fel arfer, yn festri capel y Methodistiaid Saesneg, Windsor Road, Radur am 7:30. Cewch groeso cynnes!

# Cylch Meithrin yr Eglwys Newydd

CLECS Y CYLCH

Ers hanner tymor mis Chwefror rydyn ni wedi bod yn brysur yn y cylch. Ein themâu yw 'Pobl sy'n ein helpu ni; Y Gwanwyn a'r Pasg'. Cawson ni ymweliadau gan barafeddyg, yr heddlu, dynion tân yr Eglwys Newydd a meddyg. Roedd y plant wedi cynhyrfu wrth weld yr injan dân yn cyrraedd drwy glwydi'r cylch a gweld aelod o'r staff yn gwisgo gwisg dyn tân!

Cawsom gyngerdd Dydd Gŵyl Dewi lwyddiannus pan ddaeth rhieni, teulu a ffrindiau i weld y plant yn canu a chael cyfle am baned a sgwrs gyda'i gilydd. Daeth y plant â phlanhigion o bob lliw a llun i'r cylch er mwyn eu plannu i harddu'r ardal y tu allan, gan ddysgu i ofalu amdanyn nhw drwy arllwys dŵr a'u gweld yn tyfu a blodeuo.

Cawsom noson geilys lwyddiannus i godi arian i'r cylch: diolch i'r holl rieni a ddaeth i gefnogi. Mae ein plant yn brysur yn dysgu caneuon am y Gwanwyn a'r Pasg ac fe fyddan nhw'n perfformio yn ein bore hetiau Pasg pan fydd cyfle i'r plant arddangos eu hetiau Pasg.

Hoffai'r staff a'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y tymor; dymunwn Basg hapus i bawb ac edrychwn ymlaen at dymor newydd yn llawn hwyl a sbri .

Os hoffech wybodaeth am y cylch neu'r grŵp Ti a Fi cysylltwch â ni ar 07896519583.


## Llety gwyliau ar osod yn Edern Pen Llŷn

Golygfeydd godidog, teithiau cerdded gwych, o fewn munudau i lan y môr. O fewn tafliad carreg i fae enwog Porthdinllaen a'i glwb golffio erbyn hyn. Digonedd i wneud, o ferlota, beicio, pysgota, hwylio, cerdded, bywyd gwyllt, henebion, i hamddena a llawer llawer mwy.

**Am fanylion pellach cysylltwch â Gwenan Hughes ar 01758 770363 neu e bostiwch taghughes@yahoo.co.uk**

# Ôl-Lwybrau

## Mary Wiliam

Cofiaf yn dda y cyfweliad a gefais gan Adran Gymraeg Prifysgol Caerdydd; yr Athro Griffith John Williams yn gofyn 'O ble chi'n dod Miss Middleton?' a minnau'n ateb 'Tredegar'. 'O' meddai'r Athro, 'Rôn ni'n meddwl eich bod chi'n dod o Sirhywi.' 'Ydw', meddwn i, 'ond cefais siars gan fy mam i bido gweud wrth neb fy mod i'n dod o Sirhywi am iddo gael ei adnabod fel hen le brwnt.' Gyda hynny, llithrais oddi ar y gadair ac o dan y ford.

Doedd Sirhywi ddim yn bentref. Rhesi o dai bychain, tafarn, ysgol a siop jîps, a chapel oedd yno. Siaredid dwy dafodiaith yn yr ysgol. Roedd y plant a aned yn yr hen dai a godwyd wrth geg y gwaith haearn ganrif ynghynt yn siarad yn wahanol i ni. Roedd eu tylwyth wastad wedi byw yn Four Rows neu Petar Restar fel byddai'r hen Gymry yn eu galw. Roedden nhw i gyd yn cyfarch ei gilydd ag *Ow be? Ow be iw? Be iw comin to chapyl tonight Marie?* Byddai'r bechgyn yn holi ei gilydd, *Be iw comin up Skipper tonight? En iw comin?* Ar ben y mynydd rhyngon ni a Ben-câ (Glynebwy) roedd Skipper Wen, y pown lle roedd y bechgyn yn mynd i bysgota a thaflu cerrig. Yn ddiweddarach, gwelais yr enw yn ysgrifenedig, sef Ysgubor Wen, a sylweddoli ein bod ni'n cadw'r hen galediad.

Rôn i'n eithaf eiddigeddus ohonynt: rôn nhw'n cael bywyd difyrrach na ni. Yn yr haf, âi'r teuluoedd i gyd *up the 'ops*. Wyddwn i ddim ble roedd *the 'ops* na beth ôn nhw'n neud yno. Ond rôn nhw'n colli wythnosau o ysgol. Gwelais fan gelfi yn llawn o fatresi, cadeiriau a bord a sosbenni ryw fore Sadwrn yn barod i fynd i'r lle dedwydd hwnnw. Bob haf câi'r plant droi cefn ar y strydoedd culion tywyll a mwynhau eu rhyddid.

## *Llongyfarchiadau*

**Nofwyr o'r Barri a Phenarth yn edrych ymlaen**

Llongyfarchiadau i David Davies, y Barri, ar ei lwyddiant yn y rhagbrofion ar gyfer cymryd rhan yn y cystadlaethau nofio yn y Gemau Olympaidd yn yr haf. Llongyfarchiadau i Ieuan Lloyd o Benarth hefyd ar lwyddo i ennill lle yn y tîm nofio Prydeinig. Mae pedwar o Gymry yn y tîm bellach, sef David Davies, Ieuan Lloyd, Jemma Lowe a Georgia Davies. Pob lwc iddyn nhw.

---

Llongyfarchiadau i Huw ac Angharad Jones, Pentre Poeth, Caerdydd ar enedigaeth Osian ar 21 Chwefror.

---

Llongyfarchiadau i Aled Eirug, cyn-bennaeth Adran Newyddion BBC Wales, ar ei benodi'n Gadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol y Cyngor Prydeinig yng Nghymru.

## *Cydymdeimlir â*

- theulu'r ddiweddar Dorothy Ellis Prater, gynt o Benylan, a fu farw'n 95 oed yng Nghartre Nyrsio Maenordy Dyffryn Ffrwd ar 13 Mawrth. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen ar 27 Mawrth.
- â theulu a chyfeillion y diweddar Brydan Griffiths, Treganna, ond gynt o Landeilo, a fu farw'n 88 oed yn Ysbyty'r Brifysgol ar 14 Mawrth. Bu'n gweithio i'r BBC yn Llundain cyn dychwelyd i Gymru i fod yn gyfarwyddwr teulu gyda BBC Wales. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen ar 29 Mawrth.

# COLOFNYDD Y MIS

## Eurwyn Wiliam

Pan ddes i yma o Ben Llŷn yn y 1960au, roedd symud i'r 'Sowth' yn dal yn anghyffredin: fi oedd un o'r ddau gyntaf o Ysgol Botwnnog i ddewis Caerdydd fel coleg, mae'n debyg. Yr adeg honno, roedd fy mhentref genedigol, Mynytho, yn dal bron yn uniaith Gymraeg, ac roedd symud yma fel newid byd yn llwyr. Isel iawn oedd y canran gweladwy o Gymry Cymraeg. Doedd dim arwyddion Cymraeg a dim ond un ysgol cyfrwng Cymraeg. Ond eto, gallwn gynnig siec Gymraeg mewn unrhyw siop a chael ei derbyn yn syth gan i bob disgybl drwy'r ddinas dderbyn gwersi Cymraeg yn yr ysgol.

Erbyn hyn mae pethau wedi newid. Yma, gwelsom dwf aruthrol mewn addysg Gymraeg, ac mae'r iaith yn llawer mwy gweladwy a chlywadwy. Mae pobl ieuanc o'r ardaloedd traddodiadol Gymraeg yn llifo yma i fynychu'r colegau a chwilio am waith yn y llywodraeth, y cyfryngau a'r ysgolion. Ond mae llwyddiant y Gymraeg hefyd wedi ailagor hen grachen, ac mae'n amlwg i lawer o'r brodorion deimlo mai i 'Kairdiff' yn hytrach nag i Gymru y mae eu teyrngarwch, a bod yr ymdrechion i gael hawliau teilwng i'r Gymraeg wedi agor rhwyg rhyngom ni a'r rhai sy'n dewis addysg Gymraeg i'w plant ar y naill law, a'r rhai sy'n fwyfwy gwrthwynebus ar y llall.

A Mynytho wedyn, lle roedd ond dau deulu di-Gymraeg ymysg cannoedd yn fy amser i. Erbyn hyn, mae'r rhod wedi troi, a'r ardal gyda'i golygfeydd godidog o Abersoch ('Abersock') yn cael ei Seisnigeiddio yn gynyddol. Mae'r eisteddfod a'r sioe yn dal yn llwyddiannus, ond mae'r ymdrech i'w cynnal yn mynd yn fwy o hyd. Felly gadael byd a newidiodd er gwaeth i un sy'n newid er gwell fu fy hanes a lle gallaf weld gobaith yng Nghaerdydd mae'r dyfodol yn edrych yn lled ddu ar sawl ardal wledig. Cynnal twf yw'r her yng Nghaerdydd; mae angen atebion llawer mwy radical sydd y tu hwnt i allu lleol ar Fynytho a phentrefi bach eraill.

# YSGOLION

## Ysgol Bro Eirwg

**Cymdeithas Bêl-droed Cymru**

Cafodd rhai o blant yr ysgol gyfle i fod yn rhan o ffilm lansio strategaeth newydd y Gymdeithas. Yn ystod y lansiad swyddogol yng ngwesty Dewi Sant, bu'r plant yn ddigon ffodus i gwrdd â Jonathan Ford, Prif Weithredwr y Gymdeithas, Chris Coleman, Rheolwr y garfan a Carwyn Jones. Daeth Chris Coleman i'r ysgol er mwyn siarad am ei brofiadau ym myd pêl-droed ac i ateb holl gwestiynau diddorol y plant. Profiad gwych!

**Dathlu Gŵyl Dewi**

Daeth y delynores Glenda Clwyd i ddiddanu'r disgyblion ac i siarad am ei hoff ganeuon gwerin. Cafodd y plant gyfleoedd i ganu hwiangerddi i gyfeiliant y delyn. Cawsom eisteddfod ysgol fywiog a llwyddiannus iawn. Llongyfarchiadau i Logan Allen ar ennill y Goron ac i Amy Boase am gipio'r Gadair.

**Dathlu'r Pasg**

Cafodd plant y dosbarthiadau Derbyn brofiadau gwych wrth ofalu am wyau a'r cywion bach. Roeddent wrth eu bodd yn eu gwylio yn deor, yn tyfu ac yn newid o ddydd i ddydd. Rhoddwyd enw i bob un ac roedd pawb – gan gynnwys y staff – yn drist yn eu gweld yn mynd yn ôl i'r fferm! Mwynheuodd pawb ddawnsio i gerddoriaeth DJ Sterling yn ein Disgo Pasg. Rhoddwyd gwobrau i'r hetiau Pasg a phoster Pasg gorau.

**Gwibdeithiau**

Bu plant Blynyddoedd 2 a 3 ar ymweliadau â Techniquest. Dysgodd plant Blwyddyn 2 am wledydd gwahanol yn y byd ac fe gafodd plant Blwyddyn 3 brofiadau gwych wrth ddatblygu eu sgiliau mathemateg. Braf oedd cael cyfle i gerdded o gwmpas Bae Caerdydd a sylwi ar yr holl adeiladau gwych sydd yn ein prifddinas.

## Ysgol Bro Morgannwg

**Gwobr NACE Cymru**

Ysgol Bro Morgannwg yw'r ysgol gyfun Gymraeg gyntaf yng Nghymru i ennill Gwobr Her NACE Cymru i ddisgyblion mwy abl a thalentog. Mae'r wobr yn cael ei chyflwyno am waith o'r safon uchaf gan ysgol gyfan, athrawon a llywodraethwyr wrth herio pob disgybl, gan gynnwys y disgyblion hynny â medrau uchel, i gyflawni eu gorau.

nace cymru
Challenge Award
FOR EXCELLENCE IN PROVISION FOR MORE ABLE AND TALENTED PUPILS

Crëwyd argraff ffafriol ar yr aseswyr gan yr arweiniad cryf a'r oruchwyliaeth dros ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwy abl. Mewn ymweliad diweddar arfarnwyd safon gwaith yr ysgol gan yr aseswyr trwy arsylwi gwersi, cyfweld â disgyblion, athrawon, rhieni a llywodraethwyr, a thrwy edrych ar waith disgyblion. Llongyfarchiadau gwresog!



*Dosbarth Cymraeg Blwyddyn 10 ar lan Llyn Tegid*

**Taith Gŵyl Dewi**

Roedd cyffro mawr ar Ddydd Gŵyl Dewi eleni oherwydd byddai'r ŵyl yn wahanol iawn i'r arfer. Trefnwyd gwibdaith i ni o amgylch Cymru gan Miss Bethan Jones o'r Adran Gymraeg. Pwrpas y daith oedd ymgynefino â llefydd a fyddai'n arwyddocaol wrth astudio TGAU Llenyddiaeth Gymraeg.

Ar y ffordd i Aberystwyth ymwelwyd ag Aberaeron a'i thai amryliw. Cawsom gyflwyniad a thaith o amgylch y Llyfrgell Genedlaethol a phrofiad arbennig oedd gweld copi o Feibl cynharaf William Morgan. Ymlaen i Wersyll Glan-llyn am gyflwyniad diddorol i hanes Tryweryn a ffilm cyn noswylio.

Drannoeth, aethon ni i'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis; i Rosgadfan i ymweld â chartref Kate Roberts; i'r Bala a heibio i Dryweryn a Chapel Celyn gan fyfyrio'n dawel wrth weld y cerrig beddau a gludwyd o Gapel Celyn i gofio am y trigolion. Gyda'r nos, daeth cyfle annisgwyl i ni gymryd rhan mewn eisteddfod leol, yn Llangywer. Enillon ni'r wobr gyntaf fel côr am ganu 'Dwylo dros y Môr'.

Troi tuag adre felly, ar ein trydydd diwrnod. Ar y ffordd aethon ni i weld cofeb i Llywelyn ein Llyw Olaf yng Nghilmeri ac oddi yno, aethom i Aberfan. Roedd hwn yn brofiad dirdynnol ac emosiynol iawn i gloi ein taith.

Diolchwn yn fawr i Miss Jones, Mr Davies a'n gyrrwr bws arbennig o wybodus am ein tywys yn ddiogel o amgylch Cymru a rhoi cyfle i ni ddathlu ein Cymreictod.

***Megan Dafydd a Robin Tate***

## Ysgol Glantaf

**Eisteddfod 2012**

'Rhaid ymroi i gyrchu at y nod, Byd newydd sydd yn dod'– geiriau a ganwyd ag arddeliad gan dros fil o ddisgyblion i orffen Eisteddfod Ysgol Glantaf eleni! Cynhaliwyd yr eisteddfod ar 29 Chwefror – yn benllanw ar bedair wythnos o ymarferion bywiog a phrysur. Yn ystod y dydd yng Ngerddi Sophia gwelwyd cannoedd o ddisgyblion yn cystadlu mewn amrywiol gystadlaethau, o bartïon llefaru i ganeuon Ffrangeg ac Almaeneg, i *Sêr yn*



*eu Llygaid*; unawdau, deuawdau, dawnsio disgo, *Doniau Dosbarth*, unawdau sioe gerdd, gymnasteg, cystadlaethau offerynnol, golygfa o ffilm, *ensembles* ac yn y blaen – roedd rhywbeth at ddant bawb! Cafwyd gwledd o gystadlu gyda'r safon yn uchel iawn. Llys Illtud oedd yn fuddugol gyda 940 o bwyntiau; Dewi yn ail gyda 852; Teilo yn 3ydd gyda 849; a Dyfrig yn 4ydd gyda 517.

**Rygbi**




Llongyfarchiadau i dîm 7 bob ochr Blwyddyn 8 – mae'r bechgyn yn Bencampwyr 7 bob ochr Ysgolion Cymru!

**Ymweliad Chris Coleman, Rheolwr Tîm Pêl-droed Cymru**

Ar 20 Mawrth ymwelodd Chris Coleman ag Ysgol Glantaf. Cynhaliwyd sesiwn cwestiwn ac ateb, gyda disgyblion Glantaf yn gofyn cwestiynau i Chris am ei yrfa fel chwaraewr a rheolwr ac am ei gynlluniau ar gyfer dyfodol pêl-droed Cymru. Aeth Chris ar daith o gwmpas yr ysgol i ymweld â'r cyfleusterau chwaraeon gwych. Roedd yn fwy na pharod i lofnodi crysau'r disgyblion a chael tynnu ei lun.

**Diwrnod y Llyfr a Dydd Gŵyl Dewi**

Bu Mawrth y cyntaf yn ddiwrnod prysur iawn gan ei bod yn ddydd Gŵyl Dewi a Diwrnod y Llyfr. Roedd y disgyblion a'r staff yn gwisgo coch i gynrychioli Cymru, bu gwasanaethau Gŵyl Dewi i bob blwyddyn ac i ddathlu Diwrnod y Llyfr dyma'r athrawon yn rhoi 'Llyfr yn Anrheg' i aelod arall o staff. Bu'r athrawon yn brysur iawn yn pobi cacennau i'w gwerthu yn ystod amser egwyl ac amser cinio i gasglu digon o arian i fuddsoddi mewn *Kindle e-readers* i'r ysgol. Aeth dosbarth 7D i Ysgol Melin Gruffydd i ddarllen gyda disgyblion iau yr ysgol. Roedd y disgyblion wedi cynllunio a pharatoi eu storïau a llyfrau eu hunain er mwyn eu perfformio i'r plant meithrin a Blwyddyn 1 a 2.

## Ysgol Melin Gruffydd

**Cadeirio**

Llongyfarchiadau mawr i Jac Griffiths ar ennill cadair eisteddfod yr ysgol eleni am ei gerdd 'Ffoi'. Daeth Dafydd Sandall yn ail a Georgina Savastano a Iestyn Jones yn drydydd.



*Seremoni'r cadeirio yn eisteddfod yr ysgol*

**Yr Eisteddfod Gylch**

Llongyfarchiadau i'r canlynol am lwyddo'n arbennig o dda yn yr Eisteddfod Gylch:

Grŵp Llefaru a Chôr yr ysgol am ennill y wobr gyntaf; hefyd Mari Lewis am Unawd Bl. 3 a 4; Mali Prydderch am Lefaru Unigol Bl. 5 a 6; Dafydd Sandall am Unawd Bl. 5 a 6; Gethin Boore am Lefaru Unigol Bl. 3 a 4 a Cerys Davage am ennill yr Unawd Telyn Bl. 6 ac iau.

Cafwyd ail wobr gan Katie Anderson yn Unawd Bl. 2 ac iau; Erin Jones yn llefaru'n unigol dan 8 a Laura Anderson a Mali Bryant am eu deuawd. Llwyddodd y tîm dawnsio gwerin dan 10 a'r Parti Unsain i ennill yr ail wobr hefyd. Da iawn bawb; roeddech wedi gweithio'n galed iawn .

**Celf a Chrefft yr Urdd**

Llongyfarchiadau mawr hefyd i'r canlynol am eu llwyddiant yn y cystadlaethau celf a chrefft: Gwaith Creadigol 3D Bl. 2 ac iau – Osian Dafydd Alsopp – 2il wobr; Gwaith 2D Bl. 6 ac iau – Tomos Ifan Jones – y wobr gyntaf; Printiau lliw Bl. 5 a 6 – Cerys Davage – 2il wobr; Printiau du a gwyn Bl. 5 a 6 – Cerys Davage – y wobr gyntaf; Gemwaith Bl. 5 a 6 – Lois Drake – 2il wobr.

**Yr Eisteddfod Sir**

Yn yr Eisteddfod Sir llwyddodd Dafydd Sandall yn canu unawd a'r Parti Deulais i gipio'r wobr gyntaf a byddant yn teithio i'r gogledd i gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Da iawn chi a dymunwn bob llwyddiant i chi ym mis Mai.

## Ysgol Plasmawr

**Pwt o'r Plas**

www.plasmawr.cardiff.sch.uk

• Llwyddiant anhygoel i Anna Rees, disgybl ym Mlwyddyn 10, wrth ennill cystadleuaeth Cogydd Cymru am eleni. Ar ôl nifer o rowndiau anodd, cyflwynodd Anna dri chwrs ar gyfer y rownd derfynol, gan gynnwys cacennau pysgod samwn gyda saws lemwn a phasta carbonara. Enillodd darian Cogydd Ifanc Cymru a phenwythnos i'r teulu mewn gwesty moethus.

• Estynnwn ein llongyfarchiadau i Miss Rachel Pursglove ar ei phenodiad yn Ddirprwy Bennaeth Ysgol David Hughes, Porthaethwy, Ynys Môn. Fe fydd Rachel yn cychwyn ei swydd newydd ym mis Medi. Fe'i penodwyd i staff cychwynnol Ysgol Plasmawr yn 1998, yn wreiddiol yn Bennaeth Blwyddyn 7, cyn iddi gael ei dyrchafu'n rhan o Dîm Arwain yr ysgol. Dymunwn bob llwyddiant a hapusrwydd i Rachel wrth iddi hi a'r teulu symud yn ôl i Ynys Môn.

• Daeth llwyddiant i rai o ddisgyblion Plasmawr mewn arddangosfa ddiweddar a gynhaliwyd gan Gymdeithas Celf De Cymru ar y thema 'Adlewyrchiad o'r ddinas'. Arddangoswyd gwaith pum disgybl, sef Liam Coyle Bl. 7, Harry Hambley Bl. 8, Hannah Richards Thorrington a Hannah McGree Bl. 12 a Stephanie Johns Bl. 13. Dyfarnwyd y brif wobr i Hannah McGree.

• Llongyfarchiadau gwresog i Geraint a Kelly Lewis ar enedigaeth merch fach, Manon Fflur, ar ddiwedd mis Mawrth. Mae Geraint yn Bennaeth Cynorthwyol ym Mhlasmawr, a Kelly yn athrawes yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.

• Mwy o lwyddiant – y tro hwn i Ianto Jones o Flwyddyn 13 wrth ennill Ysgoloriaeth Evan Morgan i Brifysgol Aberystwyth.

• Hoffai'r ysgol longyfarch un cyn-ddisgybl a disgybl yn y chweched dosbarth ar eu llwyddiant diweddar mewn ffilm sydd yn cael ei dangos yn y sinemâu - *Hunkydory*. Mae Tomos Harries a Jodie Davies yn chwarae brawd a chwaer yn y ffilm! Mae Tomos yn chwarae prif ran ac roedd yn hyfryd ei glywed yn canu cynifer o'r caneuon yn ystod y ffilm.

# Ar Fôr Tymhestlog: Antur Barry er Cof am Beca

Un peth yw mynd ar fordaith hamddenol i weld y byd ar long fawr foethus. Cwbl wahanol yw rasio o amgylch y byd mewn cwch hwylio ysgafn, 68 troedfedd o hyd, cysgu ar 'fync' cul am bedair awr ar y tro cyn cychwyn eto ar y gwaith o godi a gostwng hwyliau a llywio'r cwch ar gwrs diogel drwy gerrynt a llif. Dyma mae Barry Chamberlain yn ei wneud - ac wrth ei fodd! Yn rhifyn mis Medi o'r *Dinesydd* y llynedd, soniwyd am gychwyn ras *Clipper Round The World*, sef ras sy'n rhoi cyfle i bobl gyffredin hwylio - efallai am y tro cyntaf - mewn ras unigryw, ar fwrdd un o ddeg cwch wedi'u noddi gan ddinas neu wlad.

Ar fwrdd cwch wedi'i noddi gan ddinas Caeredin mae Barry, ac erbyn hyn ar ei ffordd o Qingdao yn China i San Francisco ar ôl ymweld â Madeira, Rio de Janeiro, Cape Town, Gorllewin a Dwyrain Awstralia, Tauranga, Seland Newydd a Singapore. Cânt groeso anhygoel ym mhob porthladd, seremonïau lliwgar yn fwrlwm o fiwsig, dawnsio, goleuadau llachar a thân gwyllt, ond bydd y rhan fwyaf o'r dyddiau ar y lan yn gyfle i wneud gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio, gan adael rhyw ddeuddydd yn unig o seibiant.

Mae'r dechnoleg fodern yn galluogi ffrindiau a theulu i gadw cysylltiad agos iawn â'r hwylwyr - yn wir, ceir diweddariad bob teirawr am leoliad pob cwch, adroddiadau dyddiol cynhwysfawr yn adrodd eu hynt a'u helynt, a dyddiaduron gan y criw yn rhoi argraff fwy personol o'r daith - yr hwyl, y straeon a'r troeon trwstan. Mae hi'n anodd dychmygu tonnau 15 troedfedd o uchder, wal o ddŵr, corwynt a throwynt, ond daw pob llun a phob fideo â bywyd ar fôr tymhestlog yn fyw i ni gartre! Dyma beth yw 'hwylio wrth wylio'!




Yn ymuno â chriw'r cwch a noddir gan y Ffindir am y cymal o Qingdao i San Francisco bydd Elin Haf Davies o'r Bala. Mae hi wedi rhwyfo ar draws dau gefnfor eisoes - ond yn ôl yr hanes, dyw hi ddim mor gyfarwydd â dyfroedd Llyn Tegid! Fel Barry, mae Elin hefyd yn gobeithio codi arian i Apêl Arch Noa, i gefnogi Ysbyty Plant Cymru. Bydd cyfle yn ddiweddarach eleni i wylwyr S4C ddilyn hynt a helynt Elin a phrofi peth o wefr ras hwylio unigryw a sefydlwyd gan Syr Robin Knox-Johnston.

Pe bai gen i ddewis sut i fynd o amgylch y byd ... dw i'n gwybod be fyddai'n apelio ata' i – hedfan!!

**Gaynor Walter Jones**

[Mae cyfle i noddi Barry ac Elin yn eu hymgyrch i chwyddo coffrau'r Apêl trwy ymweld â'r wefan ddiogel www.justgiving.com gan ychwanegu eu henwau. Gellwch ddilyn y ras ar wefan www.clipperroundtheworld.com]

# Newyddion o'r Eglwysi

## Y Crwys

**Y Gorlan**

Yn ei ffordd ddihafal ei hun ar brynhawn dydd Mercher, 22 Chwefror, ein siaradwr gwadd oedd Dr Eirwyn Wiliam, neu yn fwy cywir, efallai, 'Eirwyn New York' i rai o'i gyfoeswyr yn ei fro enedigol ym mhen draw Penrhyn Llyn, yr enw efallai yn deillio o gysylltiad y môr â'r rhan hon o Gymru. Roedd Eirwyn â'i fryd ar fod yn archaeolegwr ac i lawr i Brifysgol Caerdydd y daeth i astudio'r pwnc arbenigol hwnnw. Gydag amser daeth ei ddiddordeb mewn pobl a'u ffordd o fyw a'u hadeiladau o ddiddordeb mawr iddo. Gwelodd yr hynafiaethau hyn mewn llyfrau fel *Bron Haul* Catherine Owen, *Cwm Eithin* Hugh Evans a *Hen Atgofion* W.J. Gruffydd, ymysg eraill. Prynhawn i'w gorlannu yn y cof.

Bythefnos yn ddiweddarach aeth John Rowlands â ni ar aml i bererindod y bu ef arnynt ers ei ymddeoliad rai blynyddoedd yn ôl, rhai ohonynt i gefnogi elusen arbennig ac eraill a roddodd bleser a boddhad personol iddo. Taith felly oedd taith Clwb Mynydda Cymru i fynyddoedd Atlas ym Morocco. Caled ar y corff ac ar y traed ond yn ddyrchafol i'r ysbryd a'r enaid. Yma roedd rhaid dringo llawer cyn cyrraedd y pentref mynyddig lle roedd llety cyn cychwyn ar y cymal olaf yng ngofal un o'r Sherpas lleol. Profiad, meddai John, oedd cael cydfyw â phobl gymharol dlawd syml eu byd ac eto a oedd yn fodlon ar eu ffordd o fyw heb chwennych na meddu moethau'r byd Gorllewinol.

**Y Gymdeithas**

Dathlodd yr aelodau Ddydd Gŵyl Dewi gyda chinio canol dydd yng Nghlwb Golff Cyncoed ar ddydd Gwener 2 Mawrth. Y siaradwr gwadd eleni oedd Y Parchg Aled Gwyn - un o deulu adnabyddus Parc Nest. Cafwyd ganddo amser hwylus yn dwyn i gof rai o'i atgofion cynnar ar yr aelwyd ddiwylliedig honno. Aeth yn ei flaen i gyfeirio at dri o wŷr a wnaeth argraff fawr arno yn ystod ei fywyd, sef y gwleidydd Gwynfor Evans, yr hyfforddwr rygbi Carwyn James a'r bardd heddychwr Waldo Williams. Diolch Aled am ein hatgoffa o ruddin cenedl. Fe'n diddanwyd ar y delyn gan Bethan Semmens.

## Bethel, Rhiwbeina

Cydymdeimlir â Iola Smith a gollodd ei rhieni, Ivor a Vera Smith, yn ddiweddar o fewn dyddiau i'w gilydd. Bu'r angladd yng Nglyndyfrdwy.

Dymunwn yn dda i Owain Meredith a'i deulu a fydd yn symud i fyw yn Aberystwyth yn ystod yr haf.

Hefyd dymunwn yn dda i Gwydaf Owen, Ysgrifennydd y capel, gan obeithio y caiff adferiad iechyd buan.

## Capel Ebeneser

**Cyrddau pregethu**

Ar 12 Mawrth daeth y Parchg Dewi Myrddin Hughes atom i gynnal dwy oedfa. Yn y bore aeth â ni at y gweithwyr yn y winllan a chyplysu hynny â dameg y Mab Afradlon. Hanfod y neges oedd gras afresymol Duw. Yn oedfa'r nos cawsom ein herio gan ddau gwestiwn: 'Pwy sydd dda?' a 'Pam ein bod yn gosod y da a'r drwg efo'i gilydd?' Cawsom wedyn ein herio i edrych ar hynny yng nghyd-destun perffeithrwydd Iesu Grist. Diolch iddo am ei neges yn y ddwy oedfa.

**Stondin Masnach Deg**

Ar Suliau 4 a 11 Mawrth bu'r ieuenctid yn gwerthu cynnyrch masnach deg i gefnogi Pythefnos Masnach Deg (27 Chwefror i 11 Mawrth). Fel eglwys masnach deg, drwy eu hymdrech codwyd dros £80.00. Diolch iddynt am eu brwdfrydedd.

**Gwledda**

Ar nos Iau, 15 Mawrth, aeth y Gymdeithas i Glwb Golff Yr Eglwys Newydd - nid i ymarfer sgiliau golff, ond i wledda a dathlu Gŵyl Dewi. Cafwyd pryd tri chwrs bendigedig a phawb wedi'u digoni. Ein gŵr gwadd am eleni oedd y darlledwr amryddawn Sulwyn Thomas, sy'n adnabyddus ledled Cymru. Yn wreiddiol o Gaerfyrddin, aeth i'r gorllewin i godi testun ei sgwrs sef pump o fawrion y genedl – Carwyn James, D J Williams, Gwynfor Evans, Norah Isaac ac wrth gwrs, Ray Gravell. Yn ei ffordd ddihafal ei hun cawsom sgwrs ddifyr am sut roedd cwrdd ac adnabod y pum person hyn wedi gadael argraff arno. Edrychwn ymlaen at ddigwyddiad nesaf y Gymdeithas, sef taith i Graig y Nos.

**Dymuniadau da**

Dymunwn fel eglwys bob bendith i Richard Peleg Williams a Lucy ar eu priodas ar 31 Mawrth yn Los Angeles. Taith hwylus i'r teulu yno ac yn ôl a phob bendith i Arwel gyda'r awdurdod arbennig sydd wedi'i ymddiried iddo gan Dalaith California ar gyfer yr achlysur.

## Minny Street

**babimi**

Daeth rhyw ddwsin o blant bach a babanod ynghyd ddydd Gwener, 30 Mawrth i ddathlu'r Pasg. Cafwyd tipyn o hwyl yn chwarae, yn creu ac yn addurno cardiau Pasg cyn mwynhau danteithion o bob math! Roedd y bwrlwm yn heintus a'r rheini, y gofalwyr, y teidiau a'r neiniau yn mwynhau cymaint â'r plant a'r plantos! Daeth sesiwn olaf y tymor hwn i ben gyda chanu bywiog a hwyliog – a oedd yn cynnwys symudiadau – o gwmpas y piano. Bydd sesiwn nesaf **babimini** yn cyfarfod fore Gwener 27 Ebrill.

**Cawl Cynnil, 30 Mawrth**

Ymunodd aelodau Eglwys Minny Street â miloedd ar draws gwledydd y Deyrnas Unedig mewn Cinio Cawl Cynnil. Trwy wneud hyn, cawsom gyfle i estyn cymorth i bobl fel Florinda Rodriguez a'i merch Maria yn Guatemala. 'Hyd yn ddiweddar,' meddai Florinda, 'roeddem yn gorfod cadw ein grawn yn atig ein cwt a sicrhau bod yna dân yn cynnau oddi tano trwy'r amser i gadw'r lleithder i ffwrdd. Gydag arian Cymorth Cristnogol rydym wedi medru prynu

storfa rawn newydd sy'n sicrhau bod ein bwyd yn cael ei gadw'n sych – mae wedi newid ein byd! Diolch i chi am yfed cawl dros Gymorth Cristnogol!'

Cylch Dinasyddiaeth Eglwys Minny Street oedd wedi trefnu'r digwyddiad ac estynnwyd gwahoddiad i gynulleidfaoedd eglwysi cyfagos yn y Waun Ddyfal ymuno â ni. Roedd y fwydlen yn un gyfoethog o ran ystod ei blas – pannas, pys, tomato a phupur, llysiau, moron a sinsir, i enwi ond rhai. Ynghyd â'r nod amlwg o estyn cymorth i'n brodyr a'n chwiorydd ar draws y byd, estyn y Cinio Cawl Cynnil gyfle i ni gymdeithasu yng nghwmni'n gilydd – trwy'n cawl cawn *Koinoia* lleol a rhyngwladol.

Am holl newyddion Minny Street ewch i www.minnystreet.org.

## Tabernacl

**Genedigaeth**

Bydd Richard Carter yn dathlu bod ei fab Rhys a Kate wedi croesawu eu mab cyntaf i'r aelwyd. Ganwyd Joseff Daniel ar Ddydd Gŵyl Dewi, gan ddwyn gobaith gwanwynol i bawb.

**Cinio Gŵyl Dewi**

Paratowyd y noson gan dîm o ferched proffesiynol. Collodd y dynion felly gyfle i olchi'r llestri! Roedd y bwyd yn hyfryd, a chawsom fwynhau sgwrs ddifyr gan y gweinidog yn cwmpasu ei wreiddiau ef ei hun, rhai o'i hoff olygfeydd o Gymru a'i obeithion am y dyfodol.

**Cymdeithas y Chwiorydd**

Ddechrau'r mis cyflwynodd pedair o'r chwiorydd eu hoff gerddoriaeth, tra bu'r Parchg Kevin Davies yn trafod trefnu blodau mewn ffordd adeiladol a chelfydd. Prynhawn gwahanol a gafwyd gan Wyn Morris yn sgwrsio ar y testun 'Dychwelyd', ac aeth Marc Jon â'r chwiorydd o gwmpas rhai o gapeli Cymanfa Dwyrain Morgannwg.

**Cymdeithas Nos Fawrth**

Buom yn ffodus i fwynhau arlwy amrywiol ar hyd y flwyddyn, gan gynnwys noson yng nghwmni Joy ac Alwyn Humphries. Roedd dawn Alwyn yn adrodd hanesion am gyfansoddwyr yn mynnu gwrandawiad, a gwerthfawrogwyd datganiadau Joy o weithiau'r cyfansoddwyr ar y piano. Noson ddiddorol arall oedd datganiad Côr Cwm Ni, sef côr o blith ieuenctid ac athrawon o Gwm Rhymni, yn canu cerddoriaeth ysgafn, boblogaidd.

**Cyngerdd Gysegredig**

Ar nos Fawrth 27 Mawrth cynhaliwyd Cyngerdd Côr Meibion Melbourne, Awstralia, gyda Chôr Meibion Taf a Chôr Merched Canna. Braint hefyd oedd cael gwrando ar Justine Viani (Soprano), unawdydd o Awstralia, sy'n derbyn hyfforddiant gan Dennis O'Neill.

**Bore Coffi**

Cafwyd cyfle i fwynhau orig hyfryd ar aelwyd Beryl Eurig ym mis Chwefror, ac fe'n gwahoddwyd i fore coffi tebyg ar aelwyd Julia ac Illtyd Lloyd fis Mawrth.

## Eglwys Dewi Sant

**Sul y Fam**

Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig i ddathlu Sul y Fam pan fu'r Ficer yn sgwrsio â phlant yr Ysgol Sul ac yn eu harwain i feddwl am yr holl bethau a wneir drostynt gan eu mamau. Rhoddodd y plant dusw o Gennin Pedr i'r gwragedd i gyd ar ddiwedd y gwasanaeth.

**Ymweliad Archesgob Caergaint**

Ni chafwyd gwasanaeth hwyrol nos Sul olaf fis Mawrth gan fod aelodau Dewi Sant wedi derbyn gwahoddiad i fynychu gwasanaeth arbennig yn Eglwys Sant Ffagan, Trecynon, Aberdâr. Cynhelir Cymun Bendigaid drwy gyfrwng y Gymraeg unwaith y mis o dan ofal ein cyn-offeiriad, y Parchg Hywel Davies. Gwahoddwyd Archesgob Cymru i bregethu a chan fod Archesgob Caergaint, Dr Rowan Williams, yn ymweld ag Esgobaeth Llandaf dros y penwythnos, roedd yn awyddus i gymryd rhan er mwyn gweinyddu'r cymun yn Gymraeg. Roedd Eglwys Sant Ffagan dan ei sang ac aelodau eglwysi a chapeli Aberdâr a thu hwnt wedi dod ynghyd i'r gwasanaeth bendithiol hwn. Braf oedd cael cyfle i gyfarfod â'r ddau Archesgob dros baned yn neuadd yr eglwys ar ôl y gwasanaeth.

**Agor yr Eglwys**

Bydd yr eglwys ar agor i'r cyhoedd bob dydd Mercher tan fis Tachwedd o 11 tan 5 ac mae croeso i bawb alw i mewn. Mae gwasanaeth y Cymun Bendigaid am 10:30 ar fore Mercher hefyd.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn â theulu Dorothy Prater a fu farw yn ddiweddar.

## Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Cathays

**Clwb 'Sbri'**

Cynhaliwyd ein trydydd Clwb 'Sbri' i blant oedran cynradd yn ystod hanner tymor y Gwanwyn, ac unwaith eto cafwyd llawer o hwyl. Thema'r clwb y tro hwn oedd 'Yr Exodus' a mwynhaodd y plant ddysgu'r hanes am Dduw yn achub ei bobl o'r Aifft ar ffurf stori, gemau, caneuon a chrefftau. Os na lwyddoch chi i ddod i Glwb 'Sbri', bydd ein Clwb 'Hapus Awr' yn parhau i redeg bob nos Lun rhwng 17:30 a 18:30 yn neuadd Ysgol Melin Gruffydd, tan ddiwedd tymor yr Haf. Croeso cynnes i blant oedran cynradd.

**Genedigaethau**

Roedd yn bleser croesawu dau newydd i'n plith yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr i Trystan a Katherine Hallam ar enedigaeth eu merch, Siwan Mair, ac i Jon ac Eleri Glanfield ar enedigaeth eu mab, Trystan Marc.

**Oedfaon Arbennig**

Dros y misoedd nesaf rydym yn bwriadu cynnal oedfaon arbennig ar nos Sul a fydd yn delio â rhai o'r cwestiynau mwyaf y gall person eu gofyn:

29/04/12 – A oes Duw?

27/05/12 – Pam credu'r Beibl?

01/07/12 – Pwy yw Iesu Grist?

Bydd lluniaeth ysgafn ar gael o 17:30, a'r cyfarfod yn dilyn am 18:00. Croeso cynnes i bawb.

# Calendr y Dinesydd • Ebrill-Gorffennaf

**Mawrth, 10 Ebrill**
Merched y Wawr Caerdydd. Dr Rosina Davies yn olrhain hanes Dr William Price, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed am 7.30 p.m.

**Iau, 12 Ebrill**
Cylch Cinio Merched Caerdydd. Cinio olaf y tymor, yng Nghlwb Golff Radur am 7.00 p.m. ar gyfer 7.30 p.m. Gwesteiwraig: Mair Carrington Roberts. Croeso cynnes i bawb, yn enwedig i aelodau newydd. Manylion pellach: Rhiannon Gregory (Tel. 029-2069-4667).

**Sadwrn, 14 Ebrill**
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan Marc Evans ar y testun 'Taith Dysgwr' am 11.00 a.m. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St., Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 14 Ebrill**
Cymdeithas Carnhuanawc: Taith gerdded o gwmpas Rhydychen dan arweiniad Keith Bush, gan ymweld yn arbennig â mannau â chysylltiadau Cymreig. Yn cychwyn o'r tu allan i Orsaf Reilffordd Rhydychen am 10.30 a.m. Manylion pellach: 0771-1551347.

**Llun, 16 Ebrill**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Noson yng nghwmni'r Parchg Ddr R. Alun Evans, yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach am 7.30 p.m.

**Mercher, 18 Ebrill**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Sgwrs am yr elusen CBM gan Siân Tesni, yn festri Capel Minny Street am 2.00 p.m.

**Mawrth, 24 Ebrill**
Darlith Goffa G. J. Williams (dan nawdd Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd) gan Dr Christine James ar y testun 'Lluniau Llên: Morgannwg a'r Alegori Gymraeg'. Yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 5.30 p.m. Croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 24 Ebrill**
Cymdeithas Cymru-Ariannin (Cangen y De). Sgwrs gan T. James Jones (Jim Parc Nest) a Manon Rhys am eu hargraffiadau am eu taith i'r Wladfa, ynghyd â Chyfarfod Blynyddol Cymdeithas Cymru-Ariannin (Cangen y De), yng Nghapel Salem, Treganna am 7.30 p.m.

**Sadwrn, 28 Ebrill**
Sefydliad Prydeinig y Galon, Cangen Caerdydd, yn cyflwyno 'Cyngerdd diolch am 30 mlynedd o waith gwirfoddol gan Ann Innes, MBE', gyda Chôr Merched Canna, Gareth Rhys Davies ac aelodau o Opera Cenedlaethol Cymru, Harry a Charlie Lovell-Jones a Pharti Meibion Hŷn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, yn Theatr Ddarlithio 1, Ysbyty Athrofaol Cymru, Y Mynydd Bychan, Caerdydd, am 7.00 p.m. Tocynnau: £12. Manylion pellach a thocynnau: 029-2061-6230.

**Llun, 30 Ebrill**
Gwledda a chymdeithasu yn y *Star*, Dinas Powys, rhwng 6.00 a 9.00 p.m. Tocynnau: £12 oddi wrth Julia Beasley (Ffôn: 029-2051-2185) neu Jayne Lewis (Ffôn: 029-2051-3500). Er budd Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg 2012.

**Mercher, 2 Mai**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Ymweliad â'r Amgueddfa Genedlaethol, Caerdydd, yng nghwmni Ann Saer, am 2.00 p.m.

**Mercher, 2 Mai**
Merched y Wawr Bro Radur. Brethyn Cartref a Chyfarfod Blynyddol, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur, am 7.30 p.m.

**Iau, 3 Mai**
'Rhywbeth at Ddant Pawb' yng Nghlwb Gwawr Llygaid y Dydd am 8.00 p.m yng Nghlwb Rygbi Cymry Caerdydd. Manylion pellach: clwbgwawrcaerdydd@hotmail.com neu Facebook Clwb Gwawr Caerdydd.

**Mawrth, 8 Mai**
Merched y Wawr Caerdydd. Noson Dysgwyr, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed am 7.30 p.m.

**Iau, 10 Mai**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Oedfa Cymorth Cristnogol o dan ofal Mari Fflur Williams, yng nghapel Salem, Treganna, am 7.30 p.m.

**Gwener, 11 Mai**
2012 William Hodgkins Lecture gan Yr Athro M. Wynn Thomas: 'In the Shadow of the Pulpit: Literature and Nonconformist Wales'. City Church, Windsor Place, Caerdydd. Mynediad am ddim.

**Sadwrn, 12 Mai**
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan Lynne Davies am 11.00 a.m ar y testun, 'Yr Eisteddfod a'r Beirdd Ifainc'. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St., Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Llun, 14 Mai**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills am 7.30 p.m. Siaradwr gwadd: Bob Puw. Manylion pellach gan Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

**Mercher, 16 Mai**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Ymweliad â Chrochendy Ewenni.

**Llun, 21 Mai**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Cyngerdd gan Barti'r Efail, yng nghapel Bethel am 7.30 p.m. Tâl mynediad: £5.

**Llun, 21 Mai**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Darlith gan Gerallt Hughes (Enillydd Cystadleuaeth Erthygl Wyddonol Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 2011) ar y testun 'Robotiaid ar Draed'. Yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Mercher, 30 Mai**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Cyfarfod Blynyddol ac adloniant, yn festri Capel Minny Street am 2.00 p.m.

**Gwener, 1 Mehefin**
Golff yng Nghlwb Gwawr Llygaid y Dydd am 8.00 p.m. Manylion pellach: clwbgwawrcaerdydd@hotmail.com neu Facebook Clwb Gwawr Caerdydd.

**Sadwrn, 9 Mehefin**
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Cyfle i ymarfer siarad Cymraeg, yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St., Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 12 Mehefin**
Merched y Wawr Caerdydd. Noson yng nghwmni Rhys Iorwerth, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed am 7.30 p.m.

**Mercher, 13 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Llun ar Wal fy Nghartref gan aelodau'r Aelwyd, yn festri Capel Minny Street am 2.00 p.m.

**Iau, 14 Mehefin**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. 'Moeseg mewn Meddygaeth'. Sgwrs gan Dr Dai Lloyd, yng nghapel Bethlehem, Gwaelod-y-garth, am 7.30 p.m.

**Llun, 18 Mehefin**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Y Cyfarfod Blynyddol, ac yna noson yng nghwmni'r awdur Rhys Evans, yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.

**Sadwrn, 23 Mehefin**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Bore coffi yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, rhwng 10.30 a 12.00. Yr elw er budd Tŷ Hafan.

**Mercher, 27 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Taith flynyddol.


**Sul, 8 Gorffennaf**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Cymanfa Ganu. Arweinydd: Emyr Roberts; Organydd: Dr Alun Jones. Yng nghapel Beulah am 8.00 p.m.

**Gwener, 13 Gorffennaf**
Cwmni Theatr Ieuenctid yr Urdd yn perfformio'r ddrama gerdd, *'Sneb yn Becso Dam'*, yn seiliedig ar record hir Edward H. Dafis, yn Sherman Cymru am 2.00 p.m a 7.30 p.m. Manylion pellach: 029-2064-6900.

**Sadwrn, 14 Gorffennaf**
Noson ola'r tymor yng Nghlwb Gwawr Caerdydd i lawr yn yr Ŵyl Fwyd ym Mae Caerdydd am 8.00 p.m. Manylion pellach: clwbgwawrcaerdydd@hotmail.com neu Facebook Clwb Gwawr Caerdydd.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ
Ffôn: 029-2062-8754;
Ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk

## DINESAIR Rhif 121




**Ar Draws**

3. Gwyllt yw byd Cilla oddeutu dechrau Mai a'r ddwy ochr yn gytûn (9)
6. Gorffen drwy roi pen ar hwn (5)
7. I galon Non druan nid yw'n ddigon (9)
8. Troi'r cicaion yn aderyn (7)
11. Cael hanner cyrch heb ddechrau i ffeindio'r adar (7)
12. Person yn cyrraedd y cyfanwaith (5)
14. Cyrraedd i mewn i fforest y nos (5)
15. 'O! Arglwydd, ------ ------, Fyrddiynau ar dy ôl' (DJ) (4, 3)
18. Llan y diod di-ddechrau efallai yn Sir Gâr (9)
19. Paentio a chyfeirio, dyweder (5)
20. '---------- byth am drefn Y cymod a'r glanhad' (JR) (9)

**I Lawr**

1. Wedi ei gynnwys ond ai adeg gêm gynhyrfus? (9)
2. Nid y peth i'w wneud a'ch llaw ar yr aradr (5, 2, 2,)
3. Torri'r cylch a fu yn gwaelu (7)
4. 'Wrth ddwyn y ------ byw, I'w dodi'n nhemel Crist' (HEL) (5)
5. Y gwyn rhwng y du ar y piano (5)
8. Llwynog yn rhoi cnoad cas (5)
9. Lle i gael dŵr a chosyn yng Nghaerfyrddin (9)
10. 'Wedi oes dymhestlog hir ------ ----- mwy nid yw' (JCH) (4,5)
13. Hanner punt mewn oes a fu (3, 4)
16. Agor pum deg rywsut heb fod ar agor (2,3)
17. A welir hon yn yr haul? (5)

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams, 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN erbyn 5 Mawrth.

**Enillydd Croesair Rhif 119 -**

**Margaret Jones Rhiwbeina**

**Atebion Rhif 119**

**Ar Draws** – 1. Di ben – draw; 7. Agos; 9. Caerefrog; 10. Drwy; 13. Colled; 15. Wermod; 16. Derwen; 17. Aredig; 19. Miwsig; 20. Almon; 21. Nychu; 24. Gwirionedd; 25. Eigr; 26. Gofynnais

**I Lawr** – 2. Iwan; 3. Effro; 4. Difrod; 5. Agored; 6. Ysgyrnygu; 8. Gorffwyso; 11. Pwy a wnaeth; 12. Ardderchog; 13. Cofia; 14. Dewin; 18.Glawio; 19. Modrwy; 22. Poen; 23. Medi

# ELFYN SCOURFIELD MA, Ph.D, FSA

Yn annisgwyl ar fore Iau, 16 Chwefror, yn Ysbyty Athrofaol Caerdydd, bu farw Dr Elfyn Scourfield. Ac yntau'n frodor o Dre-lech, aeth i Ysgol Ramadeg y Frenhines Elisabeth yng Nghaerfyrddin, cyn mynd yn ei flaen i raddio yn Adran y Gymraeg, Coleg y Brifysgol, Abertawe. Fis Medi 1965 ymunodd â staff Amgueddfa Werin Cymru, fel un o aelodau curadurol yr Adran Ddiwylliant Materol, gan ddod maes o law yn Geidwad yr Adran Amaethyddiaeth a Bywyd Gwledig. Wedi cyrraedd yr Amgueddfa enillodd radd MA am draethawd ar ddiwylliant gwerin a thraddodiadau llafar bro ei febyd, ac yn ddiweddarach Ddoethuriaeth am waith ar y Cymdeithasau Cyfeillgar yn Ne Cymru. Crefftau gwlad ac amaethyddiaeth a gafodd ei sylw arbenigol yn Sain Ffagan, ac yn y meysydd hyn cyhoeddodd amryw erthyglau a chyfrolau, yn ogystal â chyd-lunio cyfrol ar hanes y fro y bu'n byw ynddi am ddegawdau, *Sully, A Village and Parish in the Vale of Glamorgan* (1986). Chwaraeodd ran ganolog yn y dasg o symud amryw hen adeiladau i'w hailgodi yn yr Amgueddfa Werin, ac ef hefyd a fu'n bennaf gyfrifol am sefydlu cynnwys yr Oriel Amaethyddol a agorwyd yno yn 1974. Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf i'w weddw Mary, ynghyd â'r plant Nest, Eluned ac Aled, a'u teuluoedd hwythau.

***Roy Saer***



*Elfyn Scourfield*

# *Première* Prydeinig o Waith Newydd Karl Jenkins yn Goron ar Gyngherddau'r Eisteddfod

Bydd Karl Jenkins yn arwain y *Première* Prydeinig o'i waith diweddaraf, *Beirdd Cymru*, ar lwyfan y Pafiliwn, fel rhan o arlwy cyngherddau Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg eleni. Cafodd manylion y cyngherddau eu cyhoeddi wrth i'r Eisteddfod fynd ar daith o amgylch Bro Morgannwg i hybu a hyrwyddo'r Brifwyl a gynhelir ar hen faes awyr Llandw ger y Bontfaen a Llanilltud Fawr o 4-11 Awst eleni.

Meddai Hywel Wyn Edwards, Trefnydd yr Eisteddfod Genedlaethol, 'Rydym wedi creu nosweithiau ychydig yn wahanol i'r arfer eleni, ac rwy'n gobeithio y bydd yr arlwy'n apelio at Eisteddfodwyr selog, yn ogystal â phobl sydd heb fentro i'r Pafiliwn o'r blaen. Mae'r amrywiaeth eleni yn hynod o helaeth, gyda phob math o berfformwyr ac artistiaid yn ymddangos ar lwyfan yr Eisteddfod i'ch diddanu.

'Braf yw croesawu rhai o berfformwyr amlycaf Cymru'n ôl atom, a braf hefyd yw gweld cynifer o wynebau newydd - ond yr un mor gyfarwydd mewn gwirionedd - yn ymddangos yn y Pafiliwn gyda ni eleni yn y Fro. Rydym yn gobeithio bod rhywbeth i bawb gyda'r nos yn yr Eisteddfod eleni, ac edrychwn ymlaen at eich gweld yn Llandw ymhen ychydig dros bum mis.'

Dewch i fwynhau Only Men Aloud yn y cyngerdd agoriadol, nos Wener 3 Awst, gydag Only Boys Aloud – y côr amryddawn a grëwyd ar gyfer cyngerdd agoriadol yr Eisteddfod yn 2010 – yn dychwelyd i'w cartref gwreiddiol ar lwyfan y Pafiliwn.

Y prif berfformiad yng nghyngerdd nos Sadwrn 4 Awst yw'r *Première* Prydeinig o waith Karl Jenkins, *Beirdd Cymru*, gyda'r cyfansoddwr ei hun yn arwain. Perfformiwyd y gwaith hwn am y tro cyntaf yn Hwngari yn 2011, a chyfieithwyd y geiriau i'r Gymraeg gan y Prifardd Twm Morys. Bydd cyfle hefyd i fwynhau dau o unawdwyr enwocaf ein cyfnod, Dennis O'Neill a Rebecca Evans, ynghyd â Chôr Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg.

Cynhelir y Gymanfa Ganu yn y Pafiliwn nos Sul. Gwledd o ganu cynulleidfaol dan arweiniad profiadol Euros Rhys Evans, gyda Robert Nicholls wrth yr organ. Cefnogir y Gymanfa gan Eglwys Annibynnol Gymraeg Radnor Walk, Chelsea, Llundain. Ymunwch ag un o fawrion y byd adloniant, Dafydd Iwan, wrth iddo ddathlu hanner can mlynedd o ddiddanu cynulleidfaoedd ar draws Cymru, ar lwyfan y Pafiliwn nos Lun. Cawn deithio drwy ddegawdau Dafydd a'r band yng nghwmni'r dyn ei hun a'i westeion, gan gynnwys Ar Log, Heather Jones, Côr Plant Heol-y-March ac Edward Morus Jones. Bydd Greta a Miriam Isaac o Fro Morgannwg hefyd yn perfformio ar y noson.

Bydd nos Fawrth yn noson wahanol iawn i'r arfer ar lwyfan y Pafiliwn, pan fyddwn yn cynnal Gala Gomedi am y tro cyntaf yn yr Eisteddfod. Dewch i fwynhau rhai o ddigrifwyr a pherfformwyr comedi gorau Cymru, gan gynnwys Tudur Owen, Arthur Picton, Daniel Glyn, Gary Slaymaker, Ifan Gruffudd a Dewi Pws, mewn noson o sgetsys a *stand-up*. Bydd y noson hon yn addas i bawb dros 14 oed. Nosweithiau o gystadlu fydd yn y Pafiliwn nos Fercher a nos Wener, gyda chystadlaethau ieuenctid yn cael sylw nos Fercher a'r corau'n cystadlu ar nos Wener.

Cawn gyfle i fwynhau Noson yng nghwmni Caryl nos Iau, gyda sioe newydd sbon sydd wedi'i chreu'n arbennig ar gyfer yr Eisteddfod eleni. Mae Caryl Parry Jones yn un o berfformwyr mwyaf amryddawn Cymru, a bydd y noson hon yn gyfle i fwynhau'i chwmni hi, y band a llu o'i chymeriadau enwocaf drwy'r blynyddoedd.

Mae tocynnau cyngherddau nos Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg ar werth a gallwch archebu tocynnau ar y we - www.eisteddfod.org.uk - neu drwy ffonio'r llinell docynnau - 0845 4090 800. Bydd y manylion i gyd yn ymddangos yn ein cylchlythyr, ar ein gwefan ac ar ein tudalen ar facebook – www.facebook.com/eisteddfod. Gallwch hefyd ddilyn yr Eisteddfod ar Twitter am y straeon diweddaraf – www.twitter.com/eisteddfod, a gallwch hefyd gofrestru i dderbyn rhagor o wybodaeth, naill ai trwy fynd i'n gwefan neu drwy anfon e-bost at gwyb@eisteddfod.org.uk.



*Dafydd Iwan: dathlu hanner can mlynedd o ddiddanu*

# Arddangosfa newydd o luniau'n dangos Caerdydd ddoe a heddiw yn dod i Ganolfan Mileniwm Cymru ym mis Ebrill

Caiff amrywiaeth o luniau difyr yn dangos hanes Caerdydd eu harddangos yng Nghanolfan Mileniwm Cymru o 5 Ebrill 2012. Mae'r arddangosfa newydd, o'r enw *Cardiff Before Cardiff*, yn addo rhoi cipolwg diddorol ar fywydau pob dydd trigolion y ddinas ddoe a heddiw.

Daeth Jon Pountney, ffotograffydd llawrydd sy'n byw yng Nghaerdydd, o hyd i dros fil o negatifau a thri chant o brintiau tra oedd yn adnewyddu Neuadd Warwick yng Ngabalfa, Caerdydd, ddiwedd 2010. Fe'u tynnwyd gan Keith S. Robertson, ffotograffydd o Gaerdydd, ddiwedd y 1970au a dechrau'r 1980au, ac maent yn dangos ardaloedd Sblot, Butetown ac Adamsdown yn bennaf. Er mai dim ond 30 oed ydynt, mae'r golygfeydd yn lluniau Keith yn edrych fel byd arall o'i gymharu â Chaerdydd heddiw.

Heb wybod pwy oedd Keith, na pham roedd y lluniau wedi'u gadael yn yr adeilad, lansiodd Jon ymgyrch ar y rhyngrwyd drwy wefannau rhwydweithio cymdeithasol, gan gynnwys Facebook, Twitter a Tumblr, er mwyn dod o hyd i enwau'r bobl a'r lleoedd yn y lluniau. Cafodd ymateb gwych, ac ers hynny mae wedi mynd ati i dynnu lluniau o gynifer o'r bobl a'r lleoedd â phosibl, fel y maent heddiw.

Soniodd Jon am un stori dwymgalon ac ingol y mae wedi dod ar ei thraws ers dechrau'r prosiect: 'Cysylltodd un dyn â mi i ddweud ei fod wedi gweld un o'r lluniau ac mai ei fam oedd y ferch yn y llun. Doedd e erioed wedi gweld y llun - roedd y llun wedi bod ynghudd am 25 mlynedd. Mae ganddi glefyd Alzheimer bellach, a gwnaeth y llun ei hatgoffa o gyfnod hapusach.'

Mae Jon wedi dod o hyd i Keith erbyn hyn ac wedi dod â'r ffotograffydd a'i waith coll yn ôl at ei gilydd. Meddai Jon: 'Mae'n fraint fawr cael cwrdd â'r dyn a dynnodd y lluniau o'r diwedd, a rhywun sydd wedi bod yn gymaint o ysbrydoliaeth ar gyfer fy ngwaith i. Mae'n wych cael sêl bendith Keith ar y prosiect; mae wir yn gwneud yr holl waith caled yn werth chweil.'

Mae'r arddangosfa'n cynnwys bron 100 o luniau, a chaiff lluniau Keith nas gwelwyd o'r blaen eu harddangos ochr yn ochr â lluniau Jon o Gaerdydd heddiw, gan roi cipolwg ar sut y mae'r ddinas wedi newid dros y 30 mlynedd diwethaf.

**Cynhelir arddangosfa *Cardiff Before Cardiff* yng Nghanolfan Mileniwm Cymru rhwng 5 Ebrill a 27 Mai 2012. Mae'r arddangosfa yn rhad ac am ddim. Am ragor o wybodaeth, ewch i:**
**http://www.wmc.org.uk/Productions/2012-2013/18969/79765**



*Un o luniau Keith S. Robertson*




ND ADDYSG

Swyddi ar gael gan asiantaeth addysg fwyaf blaenllaw Cymru

| | |
|---|---|
| Caerdydd | Athro/athrawes Cyfnod Allweddol 1 |
| Caerdydd | Athro/athrawes CPA Cyfnod Allweddol 1 |
| Caerdydd | Athro/athrawes Cyfnod Allweddol 2 |
| Penarth | Cynorthwyydd Addysgu Lefel 3 (NVQ3) |
| Y Barri | Cynorthwyydd Addysgu |
| Caerffili | Athro/athrawes Cyfnod Allweddol 1 |
| Rhondda Cynon Taf | Athrawon Uwchradd - Gwyddoniaeth Cerddoriaeth Chwaraeon Mathemateg |

Am fwy o wybodaeth am y swyddi uchod neu waith dydd i ddydd cysylltwch â Dafydd ar:

02920 827588 neu Dafydd.henry@new-directions.co.uk

ND Addysg yw'r asiantaeth addysg fwyaf yng Nghymru. Mae'r asiantaeth newydd ennill y statws o Brif Gyflenwr ledled Cymru Gan y Cynulliad ar gyfer maes addysg.

www.ndteach.co.uk Addysg@new-directions.co.uk www.facebook.com/ndteach

Supply Teachers ASCL Association of School and College Leaders NAHT The Association for All School Leaders

# Merched y Wawr Caerdydd

Yng nghyfarfod y gangen fis Chwefror cawsom awr ddifyr yng nghwmni Gwen Awbery a fu'n trafod tarddiad enwau lleoedd yng Nghymru gyda ni. Aeth â ni ar daith hanesyddol ac ieithyddol drwy'r canrifoedd yn olrhain dylanwad y Lladin a'r grefydd Gristnogol ar ein 'llannau', 'eglwys…', 'merthyr…', 'betws…,' 'pont…,' a hefyd ychydig o ddylanwad hen enwau Saesneg fel Y Rhyl < the Hill. Soniodd am effaith Sgandinafaidd ar enwau, yn cynnwys 'sca.., ske…, stack…', fel arfer mewn mannau ar yr arfordir, ac yna'r Ffrangeg Normanaidd mor amlwg yn Beaumaris a Malpas (heol wael). Yn fwy diweddar, wedi'r Chwyldro Diwydiannol, gwelid dylanwadau o'r Hebraeg wrth enwi pentref ar ôl y capel sydd ynddo, megis Bethel, Nebo a Nasareth. Tra bo'n cymdeithas yn datblygu bydd enwau lleoedd yn parhau i ddatblygu, fel yr enwau Cymraeg a roir ar strydoedd mewn stadau tai newydd. Bu llawer yn holi Gwen am darddiad enwau o'u bröydd genedigol; roedd pawb yn gytûn ein bod wedi cael rhywfaint o addysg a llawer o fwynhad yn y noson.



Yna ym mis Mawrth buom yn dathlu Gŵyl Dewi ym mwyty Snails yn Rhiwbeina. Crëwyd awyrgylch Gymreig gan Eleri Data a'n swynodd ar ei thelyn wrth i ni flasu *canapés* bara lawr a chocos a chynhwysion eraill o Gymru. Yna cawsom gawl, neu lobscows i'r Gogleddwyr yn ein plith, a gorffen gyda melysfwyd derbyniol iawn. Cawsom gyfle hefyd i ddiolch am yr holl gefnogaeth a gafodd ein cangen gan Eirlys Davies, Swyddog Datblygu'r mudiad, sy'n rhoi'r gorau i'w swydd: dymunwn yn dda iddi.


## *Angen trwsio neu newid eich cyfrifiadur?*

* Systemau newydd i'r cartref neu fusnes
* Adnewyddu a thrwsio
* 20 mlynedd o brofiad
* Gwasanaeth cartref ar gael

**106 Heol Y Crwys, Caerdydd CF24 4NQ**
**029 2023 1445 wyn@dinascomputers.co.uk**

DINAS MICROLINK TECHNOLOGY CENTRE




# Oriel Annisgwyl Llandaf

Efallai eich bod wedi sylwi ar eich teithiau trwy Landaf ar arwyddion pinc llachar yn eich cymell i gamu dros drothwy oriel o'r enw *Off the Wall*. Oriel gymharol newydd yw hon, sydd wedi ei lleoli ar Heol Caerdydd, yn adeilad gosgeiddig yr Hen Swyddfa Brofiant.

Agorwyd yr oriel ym mis Mawrth 2009, a hynny dan weledigaeth Richard a Marlene Outrim – pâr priod oedd â'u bryd ar sefydlu oriel gyfoes yng Nghaerdydd. A'r oriel erbyn hyn ar ei phedwaredd flwyddyn, mae'r fenter yn parhau i fynd o nerth i nerth. Ymysg llwyddiannau'r oriel y llynedd, roedd arddangosfa gelf bop – yr arddangosfa gyntaf o'i bath yng Nghaerdydd, a ddenodd lawer o sylw'r wasg. Diddorol hefyd yw sylwi bod yr oriel yn llwyddo i werthu'n dda ar ei gwefan ac, yn sgil hynny, yn llwyddo i ddenu cwsmeriaid o dramor.

Rheolwraig yr oriel yw Cassandra Jones, dysgwraig frwd sydd â phrofiad eang ym maes curadu. Arferai weithio yn oriel Martin Tinney yn ystod dechreuadau'r oriel honno ym Mhlas Windsor, yn ogystal ag oriel Kooywood. Meddai Richard Outrim am Cassandra: 'Mae hi'n wir gaffaeliad i'r oriel. Mae hi'n adnabod cymaint o artistiaid o Gymru yn sgil ei phrofiadau blaenorol ym maes curadu. Mae hi'n brofiadol iawn yn y maes, ac mae ganddi wir amgyffrediad o'r byd celf yma yng Nghymru.'

Rhan o ethos yr oriel yw'r pwyslais ar y lleol yn ogystal â'r rhyngwladol. Mewn arddangosfa ddiweddar, er enghraifft, cafwyd gweithiau gan artistiaid lleol megis Corrie Chiswell, Luned Aaron ac Emma Siân Pritchard, a bydd yr arddangosfa nesaf, a gynhelir rhwng 12 Ebrill a 9 Mai, yn canolbwyntio ar waith yr artist mynegiannol a haniaethol o Kenya, Paresh Nrshinga.

*Off the Wall*, Yr Hen Swyddfa Brofiant, 49 Heol Caerdydd, Llandaf, Caerdydd CF5 2DQ
Ffôn: 029 2055 4469
Gwefan: www.galleryoffthewall.com



*Cassandra Jones, rheolwraig yr oriel*